




<p>Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau (<u>BYDD MYFYRWYR YN GALLU</u> erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu): datblygu eu gallu i adnabod tueddiadau a phatrymau mewn data a gyflwynir ar ffurf tabl a graff; cynnal arbrofion i fesur cyfradd adwaith. • Gwybodaeth (<u>BYDD MYFYRWYR YN GWYBOD</u> erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu): terminoleg wyddonol i ddisgrifio hydoddiannau, technegau gwahanu a hydoddedd; sut yr achosir dŵr caled a'r gwahaniaeth rhwng dŵr caled dros dro a pharhaol; dulliau gwahanol a ddefnyddir i feddalau dŵr. • Dealltwriaeth (<u>BYDD MYFYRWYR YN DANGOS</u> eu dealltwriaeth): dewis dulliau gwahanu priodol i wahanu cymysgeddau gwahanol; dehongli cromliniau hydoddedd a disgrifio'n fanwl y prosesau a ddefnyddir i feddalau dŵr. 		<p>Geiriau / Termau Allweddol: hydoddedd, hydoddiant, dihalwyno, distyllu, hydoddiant dirlawn, dŵr caled, llysnafedd (<i>scum</i>), trochion, calch, cyfnewid ionau, cyfradd adwaith, egni actifadu, damcaniaeth gronynnau.</p>	
<p>RhDd 4 – Wythnosau 1 a 2 Deilliannau Dysgu:</p> <p>1. Cyfansoddiad dŵr a thrin dŵr</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd myfyrwyr yn ymwybodol o gyfansoddiad dŵr mewn cyflenwadau dŵr 'naturiol', gan gynnwys nwyon wedi'u hydoddi, ionau, micro-organebau a llygryddion. ○ Bydd myfyrwyr yn deall yr angen am gyflenwad dŵr cynaliadwy i gynnwys gostwng ein cymeriant dŵr, lleihau effeithiau amgylcheddol tynnu, dosbarthu a thrin dŵr. ○ Bydd myfyrwyr yn egluro sut mae'r cyflenwad dŵr cyhoeddus yn cael ei drin, gan ddefnyddio gwaddodiad, hidliad a chlorineiddiad. <p>2. Fflworeiddio'r cyflenwad dŵr</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod y dadleuon o blaid ac yn erbyn fflworeiddio er mwyn atal pydredd dannedd. <p>3. Gwahanu dŵr a solidau / hylifau eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod am ddihalwyno dŵr y môr i gyflenwi dŵr yfed gan gynnwys pa mor gynaliadwy yw'r broses. ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod y termau sy'n gysylltiedig â hydoddiannau. ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod sut i wahanu dŵr a hylifau cymysgadwy eraill drwy eu distyllu. <p>4. Hydoddedd a chromliniau hydoddedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod beth yw hydoddedd ac yn gallu dehongli cromliniau hydoddedd. 		<p>Meini Prawf Llwyddiant:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ateb cwestiynau arholiad ar drin dŵr. 	<p>Gwaith Cartref RhDd 4 1/3 Ateb cwis ar google classroom</p>
<p>RhDd 4 – Wythnosau 3 a 4 Deilliannau Dysgu: Bydd myfyrwyr yn dangos a defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd yn ystod asesiad ACD1</p> <p>5. Hydoddedd a chromliniau hydoddedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod beth yw hydoddedd a dulliau syml i ganfod hydoddedd a chynhyrchu cromliniau hydoddedd. <p>6. Dŵr caled.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod achosion dŵr caled a sut i wahaniaethu rhwng dŵr caled a meddal ar sail eu hymddygiad â sebon. ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod y gwahaniaeth rhwng dŵr caled dros dro a dŵr caled parhaol. <p>7. Dŵr caled.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd myfyrwyr yn cynnal gweithgareddau ymarferol i roi 4 sampl dŵr yn eu trefn yn ôl pa mor galed ydynt. ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod y prosesau a ddefnyddir i feddalau dŵr gan gynnwys berwi, ychwanegu sodiwm carbonad a chyfnewid ionau. <p>8. Dŵr caled.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau o feddalau dŵr gan egluro sut mae'r dulliau hyn yn gweithio. ○ Bydd myfyrwyr yn gwybod manteision dŵr caled i iechyd a'i effeithiau negyddol e.e. ar elfennau mewn boeleri. 	<p style="text-align: center;">    </p>	<p>Meini Prawf Llwyddiant: ACD1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallu plotio cromliniau hydoddedd a'u dehongli. • Canfod pa mor galed yw dŵr trwy gynnal gweithgareddau ymarferol. • Bydd myfyrwyr yn gallu esbonio y prosesau a ddefnyddir i feddalau dŵr gan esbonio eu manteision ac anfanteision. 	<p>Gwaith Cartref RhDd 4 2/3 Darparu deunydd adolygu ar gyfer AC.</p>

RhDd 4 – Wythnosau 5 a 6 Deilliannau Dysgu:

Bydd myfyrwyr yn dangos a defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd yn ystod arholiad diwedd yr uned.

8. Cyfradd Adwaith.

- Bydd myfyrwyr yn gwybod beth mae'r term cyfradd adwaith yn ei olygu a'r ffactorau a all effeithio'r gyfradd adwaith.
- Bydd myfyrwyr yn defnyddio dulliau ymarferol i ganfod cyfradd adwaith:

(a) Maint gronynnau - casglu nwy a cholli más i weld effaith maint gronynnau ar gyfradd adwaith.

(b) Tymheredd - Bydd myfyrwyr yn defnyddio dulliau ymarferol i ganfod cyfradd adwaith – dulliau dyddodiad i weld effaith tymheredd ar gyfradd adwaith.

Asesiad

AC

Marc

Gradd

Meini Prawf Llwyddiant:

- Bydd myfyrwyr yn casglu canlyniadau dilys i ganfod sut mae newidiadau mewn arwynebedd arwyneb yn newid y gyfradd adwaith.
- Bydd myfyrwyr yn casglu canlyniadau dilys i ganfod sut mae newidiadau mewn tymheredd yn newid y gyfradd adwaith.

**Gwaith Cartref RhDd 4
1/3**

Adolygu i'r AC.